**PANEL PENODI Y PWYLLGOR SAFONAU**

**29 Tachwedd 2017**

Yn bresennol: Mrs G Hayward, Mr AE Sangster, y Cynghorydd M Williams, y Cynghorydd S Yelland a Mr S Drinkwater (Aelod Lleyg).

Roedd Mr John Parsons, y Swyddog Monitro, hefyd yn bresennol i gynghori o ran llywodraethu.

(Swyddfa APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 12.35p.m. – 1.20p.m.)

**1. Penodi Cadeirydd**

**PENDERFYNWYD** penodi Mrs G Hayward yn Gadeirydd y cyfarfod.

**2. Datgelu buddiant**

Datgelodd Mr J Parsons fuddiant personol gan ei fod yn adnabod yr ymgeisydd; fodd bynnag, gan ei fod yn y cyfarfod i gynghori o ran llywodraethu yn unig, nid aeth allan o'r cyfarfod.

**3. Gwahardd y cyhoedd**

**PENDERFYNWYD** gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod oherwydd byddai gwybodaeth esempt, fel y'i diffinir ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol, yn cael ei datgelu.

**4. Penodi Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau**

Cafodd un ymgeisydd ei gyfweld ar gyfer y sedd wag i fod yn Aelod Annibynnol o Bwyllgor Safonau Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

**PENDERFYNWYD,** yn unol â Pharagraff 16 o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 a Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2006, argymell fod Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn penodi Mr John Daniels yn Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau am gyfnod o 5 mlynedd o 17 Rhagfyr 2017 ymlaen, yn ddarostyngedig i'r telerau a'r amodau presennol a gymeradwywyd gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ei gyfarfod ar 15 Mawrth 2006.